

# Iesu'n cael ei gymryd at yr Archoffeiriad

**Print Free: www.lambsongs.co.nz    gan Jill Kemp (Cyf. Catrin Roberts)    lluniau gan Richard Gunther**




**Roedd y Rheolau roddodd Duw i Moses yn dweud bod yn rhaid cael dau berson i gytuno beth oedd person wedi'i ddweud a'i wneud i dorri'r rheolau cyn cael ei gosbi. Doedd yna ddim dau berson yn cytuno er mwyn i Iesu gael ei gyhuddo.**



**Dangosodd Jwdas Iscariot i filwyr y Prif Offeiriad lle'r oedd Iesu.**
**Dyma nhw'n ei arestio fe, a'i fwlio. Fe wnaethon nhw wneud hwyl am ei ben a'i gam-drin.**



**Yna, aethon nhw ag Iesu i gartref Annas y prif offeiriad. Roedd y prif offeiriaid yn genfigennus bod cymaint o bobl yn dilyn Iesu. Roedden nhw am weld Iesu'n marw.**



**Anfonodd Annas Iesu i balas Caiaffas, yr archoffeiriad y flwyddyn honno, er mwyn iddo ddod o hyd i rywbeth roedd Iesu wedi'i wneud oedd yn torri'r Rheolau. Bydden nhw wedyn yn gallu cael gwared ag e.**




**Roedd Pedr ac un arall o ddisgyblion Iesu yn sefyll wrth ymyl. Dyma ryw ddyn wrth eu hymyl yn nabod Pedr. Ond fe wnaeth Pedr actio fel petai e ddim yn nabod Iesu.**



**Gofynnodd Caiaffas i Iesu beth roedd yn ei ddysgu. Dwedodd Iesu, "Dw i wedi bod yn siarad yn gwbl agored. Hola'r bobl oedd yn gwrando arna i. Maen nhw'n gwybod beth ddwedais i."**



**Er bod llawer o bobl yn y dyrfa yn cyhuddo Iesu o dorri Rheolau Duw, doedden nhw ddim yn gallu cytuno beth yn union roedd e wedi'i wneud.**



**Roedd Caiaffas yn flin iawn. Doedd e ddim yn gallu dod o hyd i ddau berson i gyhuddo Iesu. Cafodd Iesu ei anfon i bencadlys y Llywodraethwr Rhufeinig, Pontius Peilat. Byddai Peilat yn gwrando achos Iesu.**